Law Commission
Reforming the law




# Dweud eich dweud am ofal gan berthynas

Ystyr gofal gan berthynas ydy pan fydd plant yn cael gofal gan aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos i'r teulu, ac nid gan eu rhieni.

**Adroddiad byr am y papur ymgynghori.**



Fersiwn hawdd ei ddeall

# Beth sydd yn y papur hwn

Law Commission
Reforming the law


Gwybodaeth amdanom ni 1



Pwrpas y papur ymgynghori 2



Gan bwy rydyn ni eisiau clywed 4




Beth rydyn ni eisiau i chi wneud 5



Geiriau sy’n cael eu defnyddio yn y papur hwn 7



Gwybodaeth am y crynodeb hawdd ei ddeall 8



Beth ydy gofal gan berthynas 9




Mathau o ofal gan berthynas 11



Y mathau o ofal gan berthynas sy'n cael sylw yn yr ymgynghoriad 13




Problemau gyda'r gyfraith bresennol 18




Ein syniadau i newid y gyfraith ar ofal gan berthynas 23



Y camau nesaf 37

# Gwybodaeth amdanom ni

Law Commission
Reforming the law

Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr ydyn ni.




Rydyn ni'n edrych ar y gyfraith ac yn gwneud **argymhellion** i'r Llywodraeth.

Mae'r **argymhellion** yn awgrymu newidiadau i wella'r gyfraith.




Mater i'r Llywodraeth ydy dilyn yr argymhellion neu beidio.

# Pwrpas y papur ymgynghori




Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni edrych ar y gyfraith ar ofal gan berthynas.

Ystyr gofal gan berthynas ydy pan fydd plant yn cael gofal gan aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos i'r teulu, ac nid gan eu rhieni.




Rydyn ni wedi ysgrifennu papur o'r enw adroddiad ymgynghori.


Mae'r papur ymgynghori yn dweud wrthych chi am broblemau gyda'r gyfraith ar ofal gan berthynas, a sut i wella'r gyfraith.



Rydyn ni'n gofyn i bobl beth ydy eu barn nhw am newid y gyfraith ar ofal gan berthynas.




Gallwch chi ddarllen ein papur ymgynghori llawn yn **lawcom.gov.uk/ project/kinship-care/**



Dydy'r papur llawn ddim yn fersiwn hawdd ei ddeall.

# Pwy rydyn ni eisiau clywed ganddyn nhw



Rydyn ni eisiau clywed gan bobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn gofal gan berthynas. Mae hyn yn cynnwys:



- pobl ifanc sy'n byw dan ofal gan berthynas

- gofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas



- teuluoedd plant sy'n cael gofal gan berthynas



- gwasanaethau i blant

- pobl sy'n gweithio ym maes y gyfraith ac mewn ysgolion




- unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn gofal gan berthynas.

# Beth rydyn ni eisiau i chi wneud



Rydyn ni eisiau i chi ein helpu ni drwy ddweud beth ydy eich barn chi.




Darllenwch y papur hwn ac atebwch y cwestiynau yn y papur ymgynghori llawn.




Mae 3 ffordd o anfon eich atebion:

Ar-lein:
**lawcom.gov.uk/project/kinship-care/**



E-bost:
**kinshipcare@lawcommission.gov.uk**



Drwy'r post at:
**Kinship Care project,**
**Property, Family and Trust Law team, Law Commission,**
**1st Floor,**
**52 Queen Anne's Gate,**
**London, SW1H 9AG.**




Anfonwch eich atebion i ni erbyn **16 Hydref 2026**.



Os ydych chi eisiau i'ch atebion fod yn breifat neu os ydy'n well gennych chi beidio defnyddio eich enw, gallwch chi ofyn i ni ond efallai na fydd hyn yn bosibl bob tro.




## Beth fydd yn digwydd nesaf

Ar ôl i ni weld beth mae pobl yn ei ddweud, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad erbyn hydref 2027.

# Geiriau sydd yn y papur hwn

Rydyn ni'n defnyddio llawer o eiriau anodd yn y papur hwn. Mae'r geiriau anodd mewn **print trwm**.

Ystyr **gofal gan berthynas** ydy pan fydd plant yn cael gofal gan aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos i'r teulu, ac nid gan eu rhieni.


Fel arfer, mae **gofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas** yn berthnasau neu'n ffrindiau agos i'r teulu.Maen nhw'n gallu bod yn nain, taid, brawd neu chwaer hŷn, modryb, ewythr, cefnder, cyfnither, neu lysriant.

Fel arfer, mae **awdurdod lleol** yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau i blant sy'n byw yn ei ardal.

**Cyfrifoldeb rhiant** ydy'r pwerau cyfreithiol sydd gan riant i wneud penderfyniadau pwysig am fywyd plentyn.

Mae **perthnasau** yn golygu pobl sy'n perthyn yn agos i'r plentyn, fel nain, taid, brawd, chwaer, ewythr, modryb neu lysriant.

# Gwybodaeth am y crynodeb hawdd ei ddeall




Mae'r papur hwn yn cynnwys y prif bwyntiau o'r papur ymgynghori llawn.



Rydyn ni'n dweud wrthych chi:

- beth ydy gofal gan berthynas




- problemau gyda'r gyfraith bresennol





- ein syniadau ni am newid y gyfraith.

# Beth ydy gofal gan berthynas



Ystyr gofal gan berthynas ydy pan mae plentyn yn cael gofal gan oedolyn sydd ddim yn rhiant iddo.




Mae llawer o resymau pam nad ydy rhieni'n gallu gofalu am eu plentyn.




Efallai fod y rhiant:

- wedi marw



- yn sâl




- wedi mynd i’r carchar



- yn cael problemau gyda chyffuriau ac alcohol



- yn esgeuluso neu’n niweidio’r plentyn.



Mae gofalwyr sy’n rhoi gofal gan berthynas fel arfer yn **berthnasau** neu’n ffrindiau agos i’r teulu.

Ystyr **perthnasau** ydy pobl sy’n perthyn yn agos i’r plentyn, fel nain, taid, brawd, chwaer, ewythr, modryb neu lysriant.




Mae’r gofal gan berthynas yn gallu digwydd am gyfnod byr neu am rai blynyddoedd.

# Mathau o ofal gan berthynas




Mae gwahanol fathau o ofal gan berthynas.

Mae rhai mathau o ofal gan berthynas yn rhoi **cyfrifoldeb rhiant** i'r gofalwr, ond dydy rhai mathau eraill o ofal gan berthynas ddim yn gwneud hynny.




**Cyfrifoldeb rhiant** ydy'r pwerau cyfreithiol sydd gan riant i wneud penderfyniadau pwysig am fywyd plentyn, fel:



- sut mae'r plentyn yn cael ei fagu



- ble mae'r plentyn yn byw



- addysg y plentyn



- crefydd y plentyn




- triniaeth feddygol i'r plentyn.



Does gan ofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas ddim cyfrifoldeb rhiant nes bydd y llys yn rhoi hynny iddo.


# Y mathau o ofal gan berthynas sy'n cael sylw yn yrymgynghoriad




## 1. Gofal anffurfiol gan berthynas

Sef pan fydd plentyn yn cael ei fagu gan **berthynas.**

Ystyr **perthnasau** ydy pobl sy'n perthyn yn agos i'r plentyn, fel nain, taid, brawd, chwaer, ewythr, modryb neu lysriant.




Dydy'r **awdurdod lleol** ddim yn rhan o hyn, a does dim gorchymyn llys.





Mae rhieni'r plentyn yn cadw cyfrifoldeb rhiant.

Mae'r rhieni'n gallu gadael i'r perthynas wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.





## 2. Gofal maeth preifat

Sef pan fydd plentyn yn byw gyda pherson sydd ddim yn rhiant neu'n berthynas iddo, am fwy na 28 diwrnod.




Rhaid i'r awdurdod lleol wybod am hyn.





Mae rhieni'r plentyn yn cadw cyfrifoldeb rhiant.

Mae'r rhieni'n gallu gadael i'r gofalwr wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.



## 3. Gofal maeth gan berthynas

Sef pan fydd plentyn yn byw gydag aelod o'r teulu neu ffrind.




Rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo'r aelod o'r teulu neu'r ffrind i fod yn ofalwr maeth gan berthynas.




Mae'r llys wedi gwneud gorchymyn gofal, neu mae cytundeb rhwng yr awdurdod a'r rhieni.





Mae rhieni'r plentyn yn cadw cyfrifoldeb rhiant.




Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant hefyd. Mae'r awdurdod lleol yn gallu gwneud penderfyniadau am y plentyn, hyd yn oed os dydy'r rhieni ddim yn cytuno.

## 4. Gorchymyn trefniadau plant



Gorchymyn gan y llys teulu ydy hwn. Mae'n dweud lle mae plentyn yn byw a gyda phwy mae'n treulio amser. Pan mai gofal gan berthynas sy'n digwydd, bydd y gorchymyn trefniadau plant yn dweud y dylai'r plentyn fyw gyda'r gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas.




Mae'r gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas yn cael cyfrifoldeb rhiant.




Mae rhieni'r plentyn yn cadw cyfrifoldeb rhiant.

## 5. Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig




Gorchymyn gan y llys teulu ydy hwn.




Mae gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn para nes bydd y plentyn yn 18 oed.




Mae’r gofalwr sy’n rhoi gofal gan berthynas yn dod yn warcheidwad arbennig. Mae’n cael cyfrifoldeb rhiant.



Mae rhieni’r plentyn yn cadw cyfrifoldeb rhiant, ond mae’r gwarcheidwad arbennig yn gallu gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau heb i’r rhieni orfod cytuno.

# Problemau gyda'r gyfraith bresennol




Mae'r gyfraith bresennol yn anodd ei deall a dydy hi ddim yn gweithio'n dda bob amser i deuluoedd, gofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas, na phlant.



Mae pobl wedi dweud eu bod yn poeni am arian a chymorth i deuluoedd sy'n rhoi gofal gan berthynas, ond dydy materion ariannol ddim yn rhan o'n prosiect ni ar ofal gan berthynas.

Dyma rai o'r problemau:




- dydy pob gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas ddim yn cael cyfrifoldeb rhiant. Felly, dydy pob gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas ddim yn cael gwneud penderfyniadau am y plentyn maen nhw'n gofalu amdano





- mae'r gyfraith yn gallu ei gwneud hi'n anodd i blentyn fynd yn ôl at ei rieni, hyd yn oed pan fyddai'n ddiogel gwneud hynny



- mae'n gallu bod yn anodd helpu'r plentyn i weld ei rieni os oes problemau yn y berthynas rhwng y gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas a rhieni'r plentyn




- gallai pobl gael eu trin yn annheg oherwydd eu hil neu eu diwylliant pan yn dechrau cael gofal gan berthynas





- does dim cytundeb clir am beth ydy gofal gan berthynas ym mhob rhan o Gymru a Lloegr




- mewn trefniadau anffurfiol does gan ofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas ddim cyfrifoldeb rhiant



- efallai na fydd gofalwyr maeth sy'n rhoi gofal gan berthynas yn cyrraedd y safonau mae awdurdodau'n eu defnyddio i asesu gofalwyr maeth eraill




- mae awdurdodau lleol yn rheoli gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig mewn gwahanol ffyrdd.




Mae'r problemau hyn yn golygu bod y gyfraith yn gallu bod yn ddryslyd ac yn annheg i deuluoedd sy'n rhoi gofal gan berthynas.

## Rheolau sy'n esbonio beth ydy gofal gan berthynas







Ar hyn o bryd, does dim cytundeb clir ar ofal gan berthynas ym mhob rhan o Gymru a Lloegr.

Mae angen diffiniad cyfreithiol clir.




Mae cyfraith o'r enw Deddf Plant 1989 yn rhoi diffiniad o ofal gan berthynas, a bydden ni'n gallu defnyddio hynny.

Dyma esboniad syml:



Mae gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas yn berthynas, yn ffrind neu'n rhywun arall mae'r plentyn yn ei adnabod sy'n:

- gofalu am y plentyn y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser



- rhoi'r rhan fwyaf o ofal a chymorth i'r plentyn bob dydd, neu'r holl ofal a chymorth bob dydd.




Dydy gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas:

- ddim yn rhiant i'r plentyn




- ddim yn ofalwr maeth oedd ddim yn adnabod y plentyn cyn i'r plentyn ddod i fyw gyda nhw



- ddim yn ofalwr proffesiynol, fel nani gyflogedig neu rywun sy'n gweithio mewn cartref gofal.

# Ein syniadau i newid y gyfraith ar ofal gan berthynas




## Newid gorchmynion llys

Mae'r llysoedd yn gallu defnyddio 2 fath o orchymyn llys ar gyfer gofal gan berthynas:

- gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- gorchymyn trefniadau plant.




Dyma lle rydyn ni'n meddwl bod angen newidiadau:

- **Mynd yn ôl i fyw gyda rhieni**

  Pan fydd y llys yn gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu orchymyn trefniadau plant, dylai'r llys ystyried ydy'r plentyn yn mynd i allu mynd yn ôl i fyw yn ddiogel gyda'i rieni yn y dyfodol.

- **Helpu plant a rhieni i gadw mewn cysylltiad**




Pan fydd awdurdod lleol yn delio â phlentyn sy'n cael gofal gan berthynas o dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, dylai feddwl sut i helpu'r plentyn i gadw mewn cysylltiad gyda'i rieni.

- **Cadw pethau yr un fath i'r plentyn**



Weithiau, ar ôl i'r plentyn gael ei roi gyda gofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas, bydd pobl eraill yn mynd yn ôl i'r llys ac yn gofyn am gael newid trefniadau'r plentyn.



Mae hyn yn gallu achosi gofid i'r plentyn a'r gofalwyr.




Dylai'r llys wneud gorchymyn fel bod yn rhaid i bobl sydd ddim yn ofalwyr ac sy'n rhoi gofal gan berthynas ofyn i'r llys cyn gwneud mwy o geisiadau i'r llys.




- **Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig tymor byr**

Dylai'r llys allu gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig tymor byr fel bod y plentyn yn gallu byw gyda'r gwarcheidwad arbennig tra mae anghenion cymorth y plentyn yn cael eu gwirio.




- **Ei gwneud hi'n haws cael gorchymyn trefniadau plant**

Dylai gofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas allu gwneud cais am orchymyn trefniadau plant heb ganiatâd y llys.




- **Gwirio gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig**

Byddai'r llys yn gallu ychwanegu dyddiad adolygu i weld ydy'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn dal i weithio i blentyn.




## Newidiadau i ofal maeth gan berthynas

Rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod gofalwr sy’n rhoi gofal gan berthynas yn addas i’r plentyn.




Ond mae’r rheolau’n wahanol yng Nghymru a Lloegr.



Dydy rhai o’r gwiriadau asesu ddim yn gweithio’n dda ar gyfer gofal gan berthynas.



Dyma beth rydyn ni’n awgrymu:

- asesiadau mwy clir a chyson sy’n gweithio’n well i ofalwyr sy’n rhoi gofal gan berthynas




- llai o ymweliadau ac adolygiadau o ofal maeth gan berthynas os nad oes pryderon diogelwch.

## Math gwahanol o orchymyn llys: y gorchymyn gofal gan berthynas



Rydyn ni wedi dweud bod problemau gyda'r ffordd mae'r gorchmynion llys yn gweithio.




Un ffordd o ddatrys hyn ydy newid y gorchymyn trefniadau plant a'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.




Ffordd arall ydy creu gorchymyn llys newydd i ofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas, sef y gorchymyn gofal gan berthynas.

Dyma beth fydd y gorchymyn newydd yn ei gynnwys:



- rhaid i'r llys feddwl beth sydd orau i'r plentyn pan fydd yn penderfynu gwneud gorchymyn gofal gan berthynas neu beidio





- os ydy gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas wedi bod yn gofalu am y plentyn am o leiaf 28 diwrnod, bydd yn dod yn warcheidwad sy'n berthynas




- bydd y gwarcheidwad sy'n berthynas yn cael cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn



- bydd y gorchymyn gofal gan berthynas yn dweud ble bydd y plentyn yn byw a pha gyswllt fydd yn ei gael gyda'u rieni ac aelodau pwysig eraill o'r teulu




- bydd y gorchymyn gofal gan berthynas yn dweud sut bydd y gwarcheidwad sy'n berthynas a'r rhieni yn gallu defnyddio cyfrifoldeb rhiant.  Bydd hefyd yn egluro ydy un person yn gallu gwneud penderfyniadau ar ran y plentyn hyd yn oed os nad ydy'r person arall yn cytuno.




- gallai gorchymyn gofal gan berthynas bara am gyfnod penodol neu nes bydd y plentyn yn 18 oed.



- pan fydd awdurdod lleol yn delio â'r plentyn, bydd y gorchymyn gofal gan berthynas yn dweud pa gymorth bydd yr awdurdod lleol yn ei roi i'r plentyn, ei rieni a'r gofalwr sy'n rhoi gofal gan berthynas.




## Sut bydd y gorchymyn gofal gan berthynas newydd yn gweithio gyda gorchmynion eraill


Dylai'r gorchymyn gofal gan berthynas newydd fod yn hawdd i deuluoedd sy'n rhoi gofal gan berthynas ei ddefnyddio a'i ddeall.




Bydd yn cael ei gyflwyno yn lle'r gorchymyn trefniadau plant a'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Fydd gofalwyr sy'n rhoi gofal gan berthynas ddim yn gallu gwneud cais am orchymyn trefniadau plant na gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.





Os oes gorchymyn gofal gan berthynas yn bodoli, fydd neb yn gallu gofyn i'r llys am orchymyn trefniadau plant, gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, nac unrhyw orchymyn arall i benderfynu sut mae cyfrifoldeb rhiant yn cael ei ddefnyddio.





Os oes gan deuluoedd orchymyn trefniadau plant neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn barod, fydd y gorchymyn gofal gan berthynas ddim yn cymryd lle hwnnw.



Pan fydd gorchymyn gofal gan berthynas yn bodoli, bydd y llysoedd yn helpu os ydy pobl eisiau newid lle mae plentyn yn byw neu benderfyniadau eraill am y plentyn.




Fydd gorchymyn gofal gan berthynas ddim yn cymryd lle gorchmynion gofal, lle mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn.




Mae'r ddogfen ymgynghori lawn yn esbonio sut bydd y gorchymyn gofal gan berthynas yn gweithio gyda gorchmynion gofal cyfraith gyhoeddus.

## Asesu ar gyfer y gorchymyn newydd




Rhaid i asesiad ar gyfer gorchymyn gofal gan berthynas wrando ar beth mae'r plentyn eisiau a sut mae'n teimlo.



Rydyn ni eisiau i chi ddweud:

- pwy ddylai ysgrifennu asesiad neu adroddiad




- ddylai'r awdurdod lleol gael gwybod am gais am orchymyn gofal gan berthynas neu beidio




- beth ddylai'r asesiad ar gyfer gorchymyn gofal gan berthynas edrych arno.

## Cytundebau cyfrifoldeb rhiant i berthnasau




Dydy llawer o ofalwyr sy’n rhoi gofal gan berthynas ddim wedi cael gorchymyn llys a dydyn nhw ddim yn ofalwyr maeth sy’n rhoi gofal gan berthynas. **Gofal anffurfiol gan berthynas** ydy’r enw ar hyn.





Felly, does ganddyn nhw ddim cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.




Petai rhieni’n gallu rhoi cyfrifoldeb rhiant i ofalwr sy’n rhoi gofal gan berthynas, byddai’r gofalwr yn gallu gwneud penderfyniadau am ofal y plentyn. Er enghraifft, bydden nhw’n gallu siarad gyda gwasanaethau fel y meddyg a’r ysgol.




Rydyn ni’n credu y dylai rhieni a gofalwyr sy’n rhoi gofal gan berthynas allu cytuno i roi cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn i’r gofalwr sy’n rhoi gofal gan berthynas. Byddai hyn yn cael ei alw’n gytundeb cyfrifoldeb rhiant i berthynas.



Ond rydyn ni’n credu mai dim ond gofalwyr sy’n rhoi gofal gan berthynas ac sy’n perthyn i’r plentyn ddylai gael y cytundeb hwn.




Efallai mai dim ond am gyfnod byr a phenodol y bydd y gofalwr yn cael cyfrifoldeb rhiant




Bydd hyn yn helpu rhieni i gynllunio ymlaen llaw. Er enghraifft, pan fydd rhiant yn gorfod gweithio dramor am flwyddyn a ddim yn gallu gofalu am y plentyn.

## Cynhwysiant ac amrywiaeth




Rydyn ni eisiau gwybod sut byddai'r gyfraith bresennol ar ofal gan berthynas, a'n syniadau newydd ni, yn gallu effeithio ar deuluoedd o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac amgylchiadau.




Rydyn ni'n meddwl am:

- oed



- anabledd



- ailbennu rhywedd



- priodas a phartneriaeth sifil



- beichiogrwydd a mamolaeth



- hil, crefydd neu gred



- cyfeiriadedd rhywiol.





Rydyn ni eisiau syniadau am sut i leihau'r rheolau annheg am ofal gan berthynas.

# Y camau nesaf



Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i chi ddweud wrthyn ni sut dylai'r gyfraith ar ofal gan berthynas gael ei newid.




Bydd y pethau rydych chi'n eu dweud wrthyn ni yn ein helpu ni i awgrymu newidiadau i'r gyfraith fydd yn helpu plant, gofalwyr a theuluoedd sy'n rhan o ofal gan berthynas.

## Cydnabyddiaeth

Mae’r papur hwn yn cynnwys deunydd o gasgliad Hawdd ei Ddeall Inspired Services, a does dim modd ei ddefnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services Publishing Ltd.

Cyf ISL133 26. Mehefin 2026.

www.inspiredservices.org.uk

Mae’n bodloni Safonau Hawdd i Ddeall Ewropeaidd.. © European Easy-to-Read Logo: Inclusion Europe.

Mwy o wybodaeth:
www.easy-to-read.eu